

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

01/11/2023

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Llun, 6 Tachwedd 2023 am 11.30am i drafod y materion canlynol:

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Datgelu buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu**
- 3. I ystyried cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion hyny (Tudalennau 3 - 6)**
- 4. I dderbyn adroddiad ar Adroddiadau Blynyddol ddrafft yr Ymddiriedolwyr 2022-2023 (Tudalennau 7 - 42)**
- 5. I dderbyn adroddiad ar Lyfrgell ac Ystafell Ddarllen Cei Newydd - diweddariad (Tudalennau 43 - 44)**
- 6. I dderbyn diweddariad ar lafar ynghylch Is-Grŵp Tregaron**
- 7. I dderbyn adroddiad ar newidiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau (Tudalennau 45 - 48)**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

Miss Lowri Edwards
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor YMDDIRIEDOLWYR ELUSENNAU
a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell
drwy gynhadledd fideo ar ddydd Iau, 29 Mehefin 2023**

PRESENNOL: Y Cyngorydd Keith Evans (Cadeirydd), Cyngorwyr Endaf Edwards, Elaine Evans, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Chris James a Caryl Roberts

Hefyd yn bresennol: Y Cyngorwyr Gareth Lloyd a Wyn Thomas

Swyddogion yn bresennol: Louise Harries, Cyfreithiwr; a Nia Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (cofnodion).

(11.30am - 12.13pm)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cyngorwyr Marc Davies a Ceris Jones am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

2 Datgelu buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu

Nododd y Cyngorwyr Rhodri Evans, Wyn Evans a Chris James ddiddordeb personol mewn perthynas ag eitem 4 ar yr agenda.

3 I gadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023 aac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion hyn

PENDERFYNWYD cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023 fel rhai cywir.

Materion yn codi

Nododd yr Aelodau eu bod wedi gofyn am fwy o eglurder mewn perthynas â'r llog a dalwyd ar y cyfrifon, ac am ddadansoddiad o'r cyfrifon ar gyfer pob un o'r Elusennau sydd mewn ymddiriedolaeth, gan gynnwys gwerth yr asedau. Nodwyd y byddai Cyllid yn cael eu gofyn i gynhyrchu adroddiadau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

4 I dderbyn adroddiad ar hen Ysgol Tregaron - is-grŵp

Cyflwynodd Louise Harries yr adroddiad gan nodi bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal eleni am gyfnod o 8 wythnos i ofyn am awgrymiadau gan y cyhoedd ar sut y dylid gwario arian yr ymddiriedolaeth i hyrwyddo addysg plant cyn-ysgol ac oedran ysgol yn Nhregaron. Nodwyd bod fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen' wedi'i ddarparu i blant a'r rhai oedd eisiau cipolwg o'r wybodaeth, a bod yr ymgynghoriad wedi'i hyrwyddo drwy ddatganiad i'r wasg a negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â chysylltu ag ymgynghoreion penodol yn ardal Tregaron. Cyfarfu is-grŵp a oedd yn cynnwys Aelodau'r Pwyllgor hwn ar 23 Mai 2023 i ystyried yr ymatebion ac ystyried argymhellion i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau.

Nodwyd bod 25 o ymatebion wedi dod i law, y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â chyfleusterau chwaraeon. Cefnogwyd y farn hon gan yr Is-Grŵp

Tudalen 4

gydag argymhelliad bod dirprwyaeth yn cael ei roi i swyddogion drafod gyda swyddogion yn y Gwasanaethau Hamdden ac Addysg (Porth Cymorth Cynnar a Gwasanaethau Ysgolion a Diwylliant erbyn hyn), ynghyd â chynrychiolwyr o'r Is-grŵp.

Eglurwyd hefyd y gellid defnyddio'r arian a ddelir mewn ymddiriedolaeth ar gyfer naill ai cyllid cyfalaf neu refeniw , gan nad yw'r Ymddiriedolaeth yn dod o dan yr un gofynion â'r Cyngor.

Nododd yr Aelodau bwysigrwydd cynnal astudiaeth ddichonoldeb er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael, gan bwysleisio bod hwn yn ddatblygiad cyffrous a hynod bwysig i ardal Tregaron.

Yn dilyn trafodaeth, nododd yr Aelodau yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r argymhellion gan yr Is-grŵp, a **PHENDERFYNWYD yn unfrydol:**

- a) Bod swyddogion, ar ran yr Ymddiriedolwyr, yn pennu swyddogion priodol yn y gwasanaethau Porth Cymorth Cynnar ac Ysgolion a Diwylliant i drafod yr opsiynau ynghylch arian grant ar gyfer cyfleusterau chwaraeon; a
- b) Bod yr Is-grŵp, sy'n cynnwys y swyddogion a nodir yn yr argymhelliad uchod ac aelodau presennol yr is-grŵp, yn cwrdd i drafod yr opsiynau ariannu hynny ymhellach gan wneud argymhellion i'r Pwyllgor.

5 I dderbyn adroddiad ar Lyfrgell Cei Newydd a'r Ystafell Ddarllen

Cyflwynodd Louise Harries yr adroddiad i'r Pwyllgor gan nodi bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal o fis Chwefror eleni am gyfnod o 10 wythnos i ystyried cynnig i newid pwrpas yr ased a ddelir mewn ymddiriedolaeth i fod yn 'hyrwyddo addysg trigolion Cei Newydd', gan ofyn, os nad oeddent yn cytuno, Pa ddefnydd y byddent yn awgrymu bod asedau'r ymddiriedolaeth yn cael eu rhoi tuag ato.

Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy ddatganiad i'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol, a hysbyswyd ymgynghoreion lleol penodol hefyd o'r ymgynghoriad. Diolchwyd i Lyfrgell Gymunedol Cei Newydd am osod poster yn ymwneud â'r ymgynghoriad yn y Llyfrgell a Neuadd Goffa Cei Newydd ac am ganiatáu i fersiynau papur gael eu cadw yn y llyfrgell pe bai defnyddwyr yn dymuno llenwi copïau papur.

Nodwyd bod 32 o ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad yn ogystal â 9 sylw o dan negeseuon Facebook y Cyngor. Roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ddiwygio diben yr ymddiriedolaeth, ac o'r herwydd gall yr ymddiriedolaeth ystyried datrysiad i wneud cais i'r Comisiwn Elusennau i newid pwrpas yr ymddiriedolaeth, ond nodwyd nad oedd thema glir wedi ymddangos o'r ymgynghoriad yn wahanol i Dregaron, a bod nifer o'r ymatebion ddim yn cyfateb â'r diben arfaethedig.

Nodwyd hefyd bod arolwg cyflwr wedi cael ei gynnal gan Wasanaethau Eiddo Ceredigion a Chynnal a Chadw Tiroedd, a ganfu nad oedd yr eiddo yn addas i'w ddefnyddio ac y byddai angen buddsoddiad sylweddol. Ar hyn o bryd mae gan yr Ymddiriedolaeth ychydig dros £1,000 mewn arian parod a

Tudalen 5

all fod yn destun treuliau ychwanegol mewn perthynas â datgysylltu trydan, ac fe fydd mwy o wybodaeth yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

Gan nad yw'r Ymddiriedolaeth felly mewn sefyllfa i wneud y gwaith angenrheidiol, argymhellwyd bod yr Ymddiriedolaeth yn gofyn am farn Cymuned Cei Newydd os oes unrhyw grwpiau, sefydliadau neu unigolion sydd â diddordeb mewn ymgymryd â les yr adeilad, a gwneud cais am arian grant, fel y digwyddodd gyda Neuadd Goffa Cei Newydd . Nododd yr Aelodau, os nad oedd diddordeb lleol, efallai y bydd angen i'r Pwyllgor ystyried opsiynau eraill ar gyfer ei ddefnydd yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, nododd yr Aelodau yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, a **PHENDERFYNWYD** cyhoeddi datganiad i'r wasg a chysylltu'n uniongyrchol ag ymgynghoreion penodol (yn debyg i'r rheiny y cyfeirir atynt ym Mharagraff 2.2. yn yr adroddiad hwn) i ofyn i drigolion Ceinewydd a fyddai gan unrhyw grŵp neu sefydliad ddiddordeb mewn ymgymryd â safle'r ymddiriedolaeth at ddibenion addysgol a cheisio arian grant at y diben hwnnw. Bydd y dyddiad cau ar gyfer ymatebion un mis ar ôl cyhoeddi'r datganiad i'r wasg. Bydd adroddiad yn mynd gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

6 **I dderbyn adroddiad diweddariad ar Neuadd Goffa Cei Newydd 2022-2023**

Cyflwynodd Louise Harries adroddiad blynyddol diweddariad Neuadd Goffa Cei Newydd 2022-23 i'r Pwyllgor. Nodwyd bod llawer wedi digwydd a'u bod yn gwneud gwaith da iawn. Ers cyflwyno'r adroddiad, mae Pwyllgor Neuadd Goffa Cei Newydd wedi darparu diweddariad llafar pellach, gan nodi eu bod wedi derbyn £144,000 o'r Gronfa Loteri Genedlaethol a fydd yn hwyluso swydd datblygu llawn amser am 3 blynedd i oruchwylio gweithgareddau a datblygu rhaglen o ddigwyddiadau.

Llongyfarchodd yr Aelodau y Pwyllgor ar eu llwyddiant, gan nodi ei bod yn gadarnhaol iawn ac yn galonogol clywed am y llwyddiannau, sy'n dangos yr hyn y gall grŵp ymroddedig o wirfoddolwyr ei gyflawni dros bawb yn eu cymuned.

7 **Unrhyw Fater Arall**

Gofynnodd y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans i'r Cadeirydd ysgrifennu llythyr at Bennaeth y Gwasanaethau Democraidd ynghylch colli signal yn ystod cyfarfodydd hybrid.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar Ddydd Llun, 11 Medi 2023

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau

Dyddiad y cyfarfod: 6 Tachwedd 2023

Teitl: Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolwyr 2022-2023

Pwrpas yr adroddiad: Ystyried yr adroddiadau blynyddol yr ymddiriedolwyr drafft ar gyfer 2022-2023

Er: Penderfyniad

Cefndir**1. Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolwyr**

1.1 O dan adran 162 o Ddeddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr elusennau sydd wedi eu cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau baratoi adroddiad blynyddol mewn perthynas â'u helusen a hynny ym mhob blwyddyn ariannol.

1.2 Yn hanesyddol nid oedd y Cyngor wedi ymgymryd â'r dasg hon, fodd bynnag, yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 26 Medi 2022, bydd adroddiadau blynyddol yn cael eu paratoi gan swyddogion a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau i'w hystyried a'u cymeradwyo'n flynyddol. Paratowyd yr adroddiadau drafft ar gyfer 2022-2023 ar gyfer y 5 elusen gofrestredig (**Atodiad 1 – 5**) fel a ganlyn:

- Neuadd Goffa I, Cei Newydd;
- Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Cei Newydd;
- Sefydliad Addysgol Coffa COE;
- Cronfa Addysg Ganolradd a Thechnegol Sir Aberteifi; ac
- Elusen Richard James Thomas.

1.3 Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau ar eu gwefan nhw, os yw incwm elusen o dan £500,000 gellir llunio adroddiad syml a dim ond ei gyflwyno i'r Comisiwn os yw incwm yr elusen yn fwy na £25,000. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r elusen anfon copi i'r Comisiwn pe byddent yn digwydd gofyn amdano.

1.4 Yn achos y pum elusen a nodir uchod, nid oes gan yr un ohonynt incwm sy'n fwy na £25,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-2022 felly nid oes angen cyflwyno'r adroddiadau i'r Comisiwn.

1.5 Mae Adran 17(5) Deddf Elusennau 2011 a Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn datgan bod rhaid i ymddiriedolwyr elusennau roi sylw i

Tudalen 8

ganllawiau'r Comisiwn Elusennau er budd cyhoeddus wrth ymarfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau y byddai'r canllawiau'n berthnasol iddynt a gwneud datganiad i'r perwyl hwn yn yr adroddiad blynyddol. Mae canllawiau'r Comisiwn ar yr adroddiad blynyddol yn nodi, os nad yw'r holl ymddiriedolwyr wedi darllen y canllawiau, yna dylid gwneud datganiad sy'n datgelu'r ffaith hon. Penderfynodd y Pwyllgor ar 26 Medi 2022 "y bydd holl Aelodau Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn darllen dwy ddogfen o ganllawiau'r Comisiwn Elusennau (PB2 a PB3) a nodir yn Atodiad 6 yr adroddiad hwn. Ceir cadarnhad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor eu bod wedi darllen y canllawiau." Yn anffodus, nid yw pob Aelod o'r Pwyllgor wedi cadarnhau hyn wrth y swyddogion, felly byddwch yn nodi datganiad i'r perwyl hwn a fewnosodwyd yn yr adroddiadau blynyddol drafft yn yr adroddiad blynyddol yn yr adran '*Crynodeb yn amlinellu'r prif weithgareddau a wnaed er budd y cyhoedd (rhowch yn yr adran hon y datganiad statudol fod yr ymddiriedolwyr yn rhoi sylw i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus)*'.

1.6 Yn unol â'r datganiad yn yr adroddiadau blynyddol drafft, mae canllawiau budd cyhoeddus y Comisiwn - PB2 a PB3 - ynghlwm ar ffurf Atodiad 6 i holl Aelodau'r Pwyllgor eu darllen. Unwaith y bydd pob Aelod wedi'u darllen, bydd yr ymddiriedolwyr yn gallu datgan yn adroddiadau blynyddol y flwyddyn nesaf fod y canllawiau wedi'u darllen.

Argymhellion:

Bod y Pwyllgor yn:

- 1. CYMERADWYO'r 5 adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr drafft a nodir yn Atodiadau 1-5 yr adroddiad hwn ac y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn llofnodi a dyddio copïau glân o'r un fath ar ran ymddiriedolwr yr elusen; a**
- 2. PHENDERFYNWYD y bydd holl Aelodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn darllen dwy ddogfen ganllawiau'r Comisiwn Elusennau (PB2 a PB3) a nodir yn Atodiad 6 yr adroddiad hwn ac yn cadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor eu bod wedi darllen y canllawiau.**

Rhesymau dros y Penderfyniad:

Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Atodiadau:

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr: Neuadd Goffa 2022-2023

Atodiad 2 - Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr: Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Cei Newydd 2022-2023

Atodiad 3 - Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr: Sefydliad Addysgol Coffa COE 2022-2023

Atodiad 4 - Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr: Cronfa Addysg Ganolradd a Thechnegol Sir Aberteifi 2022-2023

Atodiad 5 - Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr: Elusen Richard James Thomas 2022-2023

Atodiad 6 - Canllawiau'r Comisiwn Elusennau PB2 a PB3

Tudalen 9

Pennaeth y Gwasanaeth: Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Cyfreithiol a Llywodraethu

Swyddog Adrodd: Louise Harries, Uwch Gyfreithiwr – Gwaith Annadleuol (Eiddo)

Dyddiad: 11 Hydref 2023

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol



Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y cyfnod

o	Dyddiad dechrau			Tan	Dyddiad gorffen		
	01	04	2022		31	03	2023

Adran A

Manylion cyfeirio a gweinyddu

Enw'r elusen

War Memorial Hall

Enwau eraill a ddefnyddir gan yr elusen

New Quay War Memorial Hall

Rhif elusen gofrestredig (os oes un)

503653

Prif gyfeiriad yr elusen

Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion

Cod Post

SA46 0PA

Enwau'r ymddiriedolwyr elusen sy'n rheoli'r elusen

	Enw'r ymddiriedolwr	Swydd (os yw'n berthnasol)	Dyddiadau gweithredu os nad am y flwyddyn gyfan	Enw'r person (neu gorff) sydd â hawl i benodi ymddiriedolwr (os yw'n berthnasol)
1	Cyngor Sir Ceredigion	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
2				
3				
4				
5				
6				
7				
8				
9				
10				
11				
12				
13				
14				
15				
16				
17				
18				
19				
20				

Enw'r ymddiriedolwyr ar gyfer yr elusen, os oes rhai (er enghraifft, unrhyw ymddiriedolwyr gwarchod)

Enw

Dyddiad gweithredu os nad am y flwyddyn gyfan

Tudalen 12

Amherthnasol	

Enwau a chyfeiriadau ymgynghorwyr (Gwybodaeth ddewisol)

Math o ymgynghorydd	Enw	Cyfeiriad
Cyfreithiol (Mewnol)	Louise Harries – Gwasanaethau Cyfreithiol	Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA
Cyllid (Mewnol)	Chris Macey – Cyllid	Canolfan Rheidol, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion
Ystadau (Mewnol)	Andrew Harries – Adain Ystadau	Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA

Enw'r prif weithredwr neu enwau uwch aelodau staff (Gwybodaeth ddewisol)

Amherthnasol

Adran B Strwythur, llywodraethu a rheoli

Disgrifiad o ymddiriedolaethau'r elusen

Math o ddogfen lywodraethol (e.e. gweithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad)	Cynllun y Comisiwn Elusennau 02/07/1975 fel y mae Cynllun y Comisiwn Elusennau 09/12/1998 yn effeithio arno.
Cyfansoddiad yr elusen (e.e.. ymddiriedolaeth,, cymdeithas, cwmni)	Ymddiriedolaeth
Dulliau dewis ymddiriedolwyr (e.e. penodwyd gan, etholwyd gan)	Amherthnasol gan mai dim ond un ymddiriedolwr sydd, ond mae'r Cyngor fel yr ymddiriedolwr yn penodi aelodau etholedig i fod ar ei Bwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau sy'n gwneud penderfyniadau ar ran yr ymddiriedolwr.

Materion llywodraethu ychwanegol (Gwybodaeth ddewisol)

<p>Gallwch ddewis cynnwys gwybodaeth ychwanegol, os yw'n berthnasol, am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bolisiâu a gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar gyfer sefydlu a hyfforddi ymddiriedolwyr; • strwythur sefydliadol yr elusen ac unrhyw rwydwaith ehangach y mae'r elusen yn rhan ohono; • y berthynas ag unrhyw bartïon perthnasol; • y prif risgiau a'r system a'r gweithdrefnau y mae'r ymddiriedolwyr wedi'u hystyried i'w rheoli. 	<p>Fel y disgrifir uchod, mae gan yr ymddiriedolwr Bwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a sefydlwyd yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac mae'n gwneud penderfyniadau ar ran yr ymddiriedolwr.</p> <p>Rhoddir hyfforddiant ymddiriedolwyr i holl aelodau'r Pwyllgor pan gânt eu penodi i fod ar y Pwyllgor.</p> <p>Caiff unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor eu gweithredu gan swyddogion y Cyngor.</p>
--	--

Crynodeb o amcanion yr elusen a nodwyd yn y ddogfen lywodraethol

Crynodeb o'r prif weithgareddau a wnaed er budd cyhoeddus mewn perthynas â'r amcanion hyn (o fewn yr adran hon dylid cynnwys y datganiad statudol bod yr ymddiriedolwyr wedi ystyried y canllaw a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus)

Amcan yr elusen yw darparu a chynnal neuadd bentref a thir hamdden at ddefnydd trigolion Ceinewydd a'i chymdogaeth a hynny heb wahaniaethu o ran barn wleidyddol, grefyddol neu eraill, gan gynnwys defnydd ar gyfer cyfarfodydd, darlithoedd a dosbarthiadau, ac ar gyfer mathau eraill o weithgareddau hamdden, gyda'r nod o wella ansawdd bywydau'r trigolion dan sylw.

Dal y tir a'r adeiladau o dan ymddiriedolaeth at ddibenion y neuadd bentref a thiroedd hamdden fel y nodwyd uchod. Y tir a'r adeiladau a gedwir o dan yr ymddiriedolaeth hon yw Neuadd Goffa Ceinewydd a lawnt fowlio Ceinewydd.

O ran y tir a elwir yn lawnt fowlio Ceinewydd sy'n cael ei ddal o dan yr ymddiriedolaeth hon, mae'r tir yn cael ei brydlesu i ymddiriedolwyr Clwb Bowlio Ceinewydd ar brydles 99 mlynedd sy'n dwyn y dyddiad 18/08/2003 a ddechreuodd ar 01/04/2000. Cydsyniwyd y les gan Gynllun y Comisiwn Elusennau ar 09/12/1998. Y defnydd a ganiateir o dan y brydles yw gweithgareddau ffurfiol clwb bowlio sef fel pafiliwn a lawntiau bowlio. Mae'r defnydd hwn a ganiateir yn hyrwyddo amcanion yr elusen ac mae er budd y cyhoedd gan fod y defnydd ar gyfer bowlio at ddiben hamdden a byddai'n gwella ansawdd bywydau'r trigolion hynny sy'n defnyddio'r cyfleuster.

O ran y tir a elwir yn Neuadd Goffa Ceinewydd, mae'r Neuadd yn cael ei phrydlesu i 'New Quay Memorial Hall' (rhif elusen 1179995), Sefydliad Corfforedig Elusennol, ar brydles 99 mlynedd sy'n dwyn y dyddiad, ac a ddechreuodd ar, 10/02/2020. Y defnydd a ganiateir o dan y brydles yw gweithgareddau yn y gymuned ac unrhyw ddefnydd arall sy'n dod o dan amcanion 'War Memorial Hall' (rhif elusen 503653) sef ei defnyddio fel neuadd bentref at ddefnydd trigolion Ceinewydd a'i chymdogaeth a hynny heb wahaniaethu o ran barn wleidyddol, grefyddol neu eraill, gan gynnwys defnydd ar gyfer cyfarfodydd, darlithoedd a dosbarthiadau, ac ar gyfer mathau eraill o weithgareddau hamdden, gyda'r nod o wella ansawdd bywydau'r trigolion dan sylw.

Mae'r uchod yn cyd-fynd ag amcanion yr elusen ac felly drwy brydlesu'r eiddo i'r Sefydliad Corfforedig Elusennol er mwyn iddo allu aros ar agor gall trigolion Ceinewydd a'r ardal gyfagos ddefnyddio'r eiddo sy'n gwella ansawdd bywydau yng Ngheinewydd.

Yn unol â thelerau'r brydles, rhaid i'r Sefydliad Corfforedig Elusennol roi crynodeb blynyddol i'r ymddiriedolwr sy'n nodi'r defnydd a wnaed o'r eiddo yn ystod y 12 mis diwethaf ac mae'r diweddariad presennol fel a ganlyn:

"Ffurfiwyd yr elusen ym mis Medi 2018 pan gafodd gweithgarwch, asedau a rhwymedigaethau elusen flaenorol y Neuadd Goffa eu trosglwyddo ac y rhoddwyd prydles newydd gan Gyngor Sir Ceredigion i bwyllgor newydd ad-drefnu a darparu gwasanaethau i'r trigolion lleol.

Caewyd y Neuadd Goffa ar gyfer gwaith adnewyddu llawn yn dilyn grant gan Lywodraeth Cymru ddechrau mis Ionawr 2020. Dilynwyd hyn gan Gyfnod Clo cenedlaethol Covid-19 ym mis Mawrth 2020, a ymestynnodd i ddechrau 2022.

Mae'r Neuadd bellach yn gwbl hygyrch i fyny'r grisiau i'r brif Neuadd ac i lawr y grisiau i'r clwb snwcer a'r ystafelloedd cyfarfod. Mae ramp mynediad a rheiliau diogelwch, manau parcio i bobl anabl, teledu cylch cyfyng, toiledau cwbl hygyrch a manau newid cewynnau i gyd bellach wedi'u rhoi yn eu lle er budd pob grŵp oedran. Mae drws tân newydd wedi ei osod i gael mynediad i risiau'r allanfa frys, mae Wi-fi ar gael drwy'r Neuadd, a chawsom grant gan raglen

Tudalen 14

Cynnal y Cardi CSC ar gyfer sgrin Hybrid 72" i alluogi cyfarfodydd, hyfforddiant a digwyddiadau hybrid.

Erbyn 2022, roedd cyfarfodydd, digwyddiadau, a gweithgareddau chwaraeon wedi aildechrau'n raddol.

Agorwyd Llyfrgell newydd Ceinewydd, sydd bellach yn cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr, yn Ystafell 4 yn y Neuadd ym mis Hydref 2021 gan gynnig gwasanaeth clicio a chasglu i ddechrau. Erbyn dechrau 2022, roedd wedi agor yn llawn.

Ailddechreuodd y Farchnad Gymunedol bob dydd Gwener ym mis Ebrill 2022, ac yn fuan roedd nifer o fyrddau wedi'u harchebu, gyda byrddau yn cynnig crefftau lleol, bric a brac, cynnyrch, jamiau, wyau, cacennau a bwydydd sawrus, ynghyd â chaffi sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr.

Mae Dyfodol Gwledig Cymru – Hafren Gwy a Cwmpas – Busnes Cymdeithasol Cymru wedi parhau i helpu a chynghori'r Ymddiriedolwyr drwy gydol 2022 ac maent ar hyn o bryd yn helpu'r Ymddiriedolwyr i wneud cais am arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer Cydlynedd Hwb llawn amser i gefnogi gwaith yr Ymddiriedolwyr a'r Gwirfoddolwyr. Mae pob Ymddiriedolwr bellach wedi mynychu sesiynau hyfforddi i Ymddiriedolwyr.

Ym mis Awst 2022, cyflwynwyd prosiect derbyn dillad a gwisg ysgol ail-law, sef 'The Clothes Rail Project'. Roedd yr ymateb yn yr ardal leol yn wych. Mae hyn wedi arbed nifer fawr o ddillad rhag cael eu hanfon i safle tirlenwi ac wedi diwallu angen amlwg am ddillad rhad.

Roedd hyn yn arbennig o lwyddiannus yn ystod y tywydd oer gwaethaf ers blynyddoedd lawer ym mis Tachwedd / Rhagfyr 2022, roeddem yn gallu darparu dillad gaeaf am ddim i unrhyw un oedd eu hangen.

Ym mis Hydref 2022 ar ddechrau'r 'Argyfwng Costau Byw', roedd angen am 'Fan Cynnes'. Gyda chymorth grant gan CAVO roeddem yn gallu darparu amgylchedd cyfeillgar a chynnes a oedd yn cael ei redeg yn wythnosol gan wirfoddolwyr gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau crefft, Wi-fi, diodydd poeth a byrbrydau. O ganlyniad i'n digwyddiadau codi arian a'r ffaith fod y neuadd yn cael ei defnyddio fwy ar gyfer chwaraeon, roedd angen cyfleusterau storio ychwanegol ac rydym bellach wedi prynu uned storio i gadw'r rhoddion a'r offer ychwanegol.

Roedd y digwyddiadau a'r gweithgareddau wythnosol a misol yn y Neuadd yn 2022 yn cynnwys caffi a marchnad wythnosol, gwasanaethau cymorth i deuluoedd, Ioga, Clonc – sgwrs Gymraeg, Salsa, tennis bwrdd, badminton, Qingong, ac amrywiaeth o grwpiau crefftau a lles. Hefyd Seaside Sisters Sefydliad y Merched, Clwb Camera, Côr Cei, Clwb Snwcer a'r Llent Brydeinig.

Mae defnyddwyr ychwanegol y Neuadd yn cynnwys y Cyngor Tref, Gwasanaethau Etholiadol y Cyngor, Gwasanaethau Trallwys Gwaed, Clwb Hwyllo Ceinewydd, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI), Ysgol Gynradd Ceinewydd, Cybiau ac Afancod Cymdeithas y Sgowtiaid, ac yn bwysig iawn, y grŵp codi arian lleol, 'Working 4 New Quay – W4NQ', sydd wedi trefnu amrywiaeth o ddiwyddiadau yn y Neuadd ar gyfer pob grŵp oedran trwy gydol y flwyddyn.

Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys Cydlynedd Hwb llawn amser am 3 blynedd – yn amodol ar gais llwyddiannus am arian gan y Loteri, clwb newydd i bobl ifanc mewn partneriaeth â Chanolfan yr Urdd, grŵp bowlio dan do, gwasanaeth benthyg offer a theganau babanod, grŵp mam a phlant bach, Clwb Cinio a bws mini cymunedol mewn partneriaeth â Dolen Teifi.

Mae'r Neuadd hefyd yn parhau i gael ei defnyddio ar gyfer digwyddiadau hyfforddi, cyfarfodydd, arddangosfeydd, digwyddiadau cerddoriaeth, partion teulu a dathliadau.

Mae gwirfoddolwyr yn parhau i fod yn hanfodol i redeg y Neuadd a'r Llyfrgell, fodd bynnag, mae'r holl wirfoddolwyr gwych yn bobl brysur a byddem wrth ein

Tudalen 15

bodd yn cael mwy o gymorth, rhowch wybod i ni os ydych yn gallu sbario ychydig oriau yn achlysurol i helpu.

Hoffem ddiolch i'n gwirfoddolwyr a'n cefnogwyr, CAVO, Grŵp Dyfodol Gwledig Hafren Gwy, Working 4 New Quay, The Seahorse, a phawb sydd wedi cyfrannu at ein digwyddiadau codi arian."

Er bod yr elusen yn gweithredu er budd yr elusen a'r cyhoedd wrth wneud penderfyniadau, nid yw wedi mynd ati'n benodol i adolygu canllawiau'r Comisiwn Elusennau o'r enw 'Budd cyhoeddus: adrodd (PB3)' yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau ac ni all gadarnhau bod holl aelodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau wedi darllen y canllawiau yn enwedig gan y bydd rhai aelodau'n newydd i'r Pwyllgor. Felly mae'r elusen yn bwriadu dosbarthu'r canllawiau (PB3 a PB2) i aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf a byddant yn cyfeirio at y canllawiau hyn wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Manylion ychwanegol am yr amcanion a'r gweithgareddau (Gwybodaeth ddewisol)

Mae'r ymddiriedolwr yn nodi ac yn canmol y cyfraniad a wnaed gan ei denantiaid yn y Clwb Bowlio a Neuadd Goffa Ceinewydd wrth iddynt barhau i ddarparu'r cyfleusterau er budd trigolion Ceinewydd a hynny yn unol ag amcanion yr elusen.

Gallwch ddewis cynnwys datganiadau pellach, os yw'n berthnasol, am:

- bolisi rhoi grantiau;
- polisi buddsoddiad cysylltiedig â rhaglen;
- cyfraniad gwirfoddolwyr.

**Crynodeb o brif
gyraeddiadau'r elusen yn
ystod y flwyddyn**

Gan fod y lawnt fowlio a'r Neuadd Goffa'n cael eu rhoi ar brydles, nid oes gan yr elusen lawer o fewnbwn i'r hyn sy'n digwydd ar y safle o ddydd i ddydd, fodd bynnag mae'r prydlesi'n parhau ac mae'r defnydd a ganiateir (fel y gwelir yn Adran C uchod) yn darparu cyfleusterau i fuddiolwyr yr elusen yn unol â'i hamcanion.

Adran D**Adolygiad ariannol**

Datganiad byr o bolisi cronfeydd wrth gefn yr elusen

Amherthnasol – dim polisi cronfeydd wrth gefn.

Manylion unrhyw gronfeydd mewn diffyg sylweddol

Amherthnasol.

Manylion adolygiad ariannol pellach (Gwybodaeth bellach)

Gallwch ddewis cynnwys gwybodaeth ychwanegol, os yw'n berthnasol, am:

- brif ffynonellau incwm yr elusen (gan gynnwys unrhyw godi arian);
- sut mae gwariant wedi cynnal amcanion allweddol yr elusen;
- polisi ac amcanion buddsoddi gan gynnwys unrhyw bolisi buddsoddi moesegol a fabwysiadwyd.

Dim.

Adran Dd**Gwybodaeth ddewisol arall**

Dim.

Adran E**Datganiad**

Mae'r ymddiriedolwyr yn datgan eu bod wedi cymeradwyo adroddiad yr ymddiriedolwyr uchod.

Arwyddwyd ar ran ymddiriedolwyr yr elusen

Llofnod(ion)

--	--

Enw(au) llawn

--	--

Swydd (e.e. Ysgrifennydd, Cadeirydd, ac ati)

--	--

Dyddiad

--

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol



Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y cyfnod

o	Dyddiad dechrau			Tan	Dyddiad gorffen		
	01	04	2022		31	03	2023

Adran A Manylion cyfeirio a gweinyddu

Enw'r elusen

Enwau eraill a ddefnyddir gan yr elusen

Rhif elusen gofrestredig (os oes un)

Prif gyfeiriad yr elusen

Cod Post

Enwau'r ymddiriedolwyr elusen sy'n rheoli'r elusen

	Enw'r ymddiriedolwr	Swydd (os yw'n berthnasol)	Dyddiadau gweithredu os nad am y flwyddyn gyfan	Enw'r person (neu gorff) sydd â hawl i benodi ymddiriedolwr (os yw'n berthnasol)
1	Cyngor Sir Ceredigion	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
2				
3				
4				
5				
6				
7				
8				
9				
10				
11				
12				
13				
14				
15				
16				
17				
18				
19				
20				

Enw'r ymddiriedolwyr ar gyfer yr elusen, os oes rhai (er enghraifft, unrhyw ymddiriedolwyr gwarchod)

Enw Dyddiad gweithredu os nad am y flwyddyn gyfan

Tudalen 20

Amherthnasol	

Enwau a chyfeiriadau ymgynghorwyr (Gwybodaeth ddewisol)

Math o ymgynghorydd	Enw	Cyfeiriad
Cyfreithiol (Mewnol)	Louise Harries – Gwasanaethau Cyfreithiol	Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA
Cyllid (Mewnol)	Chris Macey – Cyllid	Canolfan Rheidol, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion
Ystadau (Mewnol)	Andrew Harries – Adain Ystadau	Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA

Enw'r prif weithredwr neu enwau uwch aelodau staff (Gwybodaeth ddewisol)

Amherthnasol

Adran B Strwythur, llywodraethu a rheoli

Disgrifiad o ymddiriedolaethau'r elusen

Math o ddogfen lywodraethol (e.e. gweithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad)	Gweithred Ymddiriedolaeth 1 Chwefror 1952 a Gweithred Ymddiriedolaeth 17/04/1958
Cyfansoddiad yr elusen (e.e.. ymddiriedolaeth,, cymdeithas, cwmni)	Ymddiriedolaeth
Dulliau dewis ymddiriedolwyr (e.e. penodwyd gan, etholwyd gan)	Amherthnasol gan mai dim ond un ymddiriedolwr sydd, ond mae'r Cyngor fel yr ymddiriedolwr yn penodi aelodau etholedig i fod ar ei Bwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau sy'n gwneud penderfyniadau ar ran yr ymddiriedolwr.

Materion llywodraethu ychwanegol (Gwybodaeth ddewisol)

Gallwch ddewis cynnwys gwybodaeth ychwanegol, os yw'n berthnasol, am:	Fel y disgrifir uchod, mae gan yr ymddiriedolwr Bwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a sefydlwyd yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac mae'n gwneud penderfyniadau ar ran yr ymddiriedolwr.
<ul style="list-style-type: none"> • bolisïau a gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar gyfer sefydlu a hyfforddi ymddiriedolwyr; • strwythur sefydliadol yr elusen ac unrhyw rwydwaith ehangach y mae'r elusen yn rhan ohono; • y berthynas ag unrhyw bartïon perthnasol; • y prif risgiau a'r system a'r gweithdrefnau y mae'r ymddiriedolwyr wedi'u hystyried i'w rheoli. 	Rhoddir hyfforddiant ymddiriedolwyr i holl aelodau'r Pwyllgor pan gânt eu penodi i fod ar y Pwyllgor. Caiff unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor eu gweithredu gan swyddogion y Cyngor.

Crynodeb o amcanion yr elusen a nodwyd yn y ddogfen lywodraethol

Mae Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd yn eiddo sy'n cael ei ddal gan yr ymddiriedolwr o dan ymddiriedolaeth ("yr Eiddo").

Amcan yr elusen yw codi llyfrgell ac ystafell ddarllen (cyflawnwyd hyn a dyma yw'r Eiddo erbyn hyn) a chaniatáu i'r eiddo gael ei ddefnyddio fel safle ar gyfer llyfrgell ac ystafell ddarllen er budd trigolion Ceinewydd.

Ers blynnyddoedd lawer mae Cyngor Tref Ceinewydd wedi bod yn gweithredu o dan gytundeb lefel gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau llyfrgell yn yr Eiddo. Cytunwyd ar y cytundeb diweddaraf yn 2016.

Fodd bynnag, symudwyd darpariaeth y llyfrgell i Neuadd Goffa Ceinewydd ar 01/11/2021 felly mae'r eiddo wedi bod yn wag ers y dyddiad hwnnw.

Ar hyn o bryd mae'r ymddiriedolaeth yn cael ei hadolygu gan yr ymddiriedolwr i newid diben yr ymddiriedolaeth a chanfod a oes trydydd parti'n barod i ymgymryd â'r safle at ddibenion newydd yr ymddiriedolaeth.

Er bod yr elusen yn gweithredu er budd yr elusen a'r cyhoedd wrth wneud penderfyniadau, nid yw wedi mynd ati'n benodol i adolygu canllawiau'r Comisiwn Elusennau o'r enw 'Budd cyhoeddus: adrodd (PB3)' yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau ac ni all gadarnhau bod holl aelodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau wedi darllen y canllawiau yn enwedig gan y bydd rhai aelodau'n newydd i'r Pwyllgor. Felly mae'r elusen yn bwriadu dosbarthu'r canllawiau (PB3 a PB2) i aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf a byddant yn cyfeirio at y canllawiau hyn wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Crynodeb o'r prif weithgareddau a wnaed er budd cyhoeddus mewn perthynas â'r amcanion hyn (o fewn yr adran hon dylid cynnwys y datganiad statudol bod yr ymddiriedolwyr wedi ystyried y canllaw a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus)

Manylion ychwanegol am yr amcanion a'r gweithgareddau (Gwybodaeth ddewisol)

Tudalen 22

Dim.

Gallwch ddewis cynnwys datganiadau pellach, os yw'n berthnasol, am:

- bolisi rhoi grantiau;
- polisi buddsoddiad cysylltiedig â rhaglen;
- cyfraniad gwirfoddolwyr.

Adran Ch

Cyraeddiadau a pherfformiad

**Crynodeb o brif
gyraeddiadau'r elusen yn
ystod y flwyddyn**

Adolygiad yn parhau.

Adran D**Adolygiad ariannol**

Datganiad byr o bolisi cronfeydd wrth gefn yr elusen

Amherthnasol – dim polisi cronfeydd wrth gefn.

Manylion unrhyw gronfeydd mewn diffyg sylweddol

Amherthnasol.

Manylion adolygiad ariannol pellach (Gwybodaeth bellach)

Gallwch ddewis cynnwys gwybodaeth ychwanegol, os yw'n berthnasol, am:

- brif ffynonellau incwm yr elusen (gan gynnwys unrhyw godi arian);
- sut mae gwariant wedi cynnal amcanion allweddol yr elusen;
- polisi ac amcanion buddsoddi gan gynnwys unrhyw bolisi buddsoddi moesegol a fabwysiadwyd.

Dim.

Adran Dd**Gwybodaeth ddewisol arall**

Dim.

Adran E**Datganiad**

Mae'r ymddiriedolwyr yn datgan eu bod wedi cymeradwyo adroddiad yr ymddiriedolwyr uchod.

Arwyddwyd ar ran ymddiriedolwyr yr elusen

Llofnod(ion)

--	--

Enw(au) llawn

--	--

Swydd (e.e. Ysgrifennydd, Cadeirydd, ac ati)

--	--

Dyddiad

--



Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y cyfnod

o	Dyddiad dechrau			Tan	Dyddiad gorffen		
	01	04	2022		31	03	2023

Adran A

Manylion cyfeirio a gweinyddu

Enw'r elusen

The COE Memorial Educational Foundation

Enwau eraill a ddefnyddir gan yr elusen

Rhif elusen gofrestredig (os oes un)

525324

Prif gyfeiriad yr elusen

Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion

Cod Post

SA46 0PA

Enwau'r ymddiriedolwyr elusen sy'n rheoli'r elusen

	Enw'r ymddiriedolwr	Swydd (os yw'n berthnasol)	Dyddiadau gweithredu os nad am y flwyddyn gyfan	Enw'r person (neu gorff) sydd â hawl i benodi ymddiriedolwr (os yw'n berthnasol)
1	Cyngor Sir Ceredigion	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
2				
3				
4				
5				
6				
7				
8				
9				
10				
11				
12				
13				
14				
15				
16				
17				
18				
19				
20				

